Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor nos Fercher, 2 Hydref 2024, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd D. Simmons (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, W. Price, Miss S. Roberts, Ms V. Roberts,
A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Y Cynghorydd Mrs J. Evans – Arsylwi

Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**20. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs. M. Blakeley-Walker, Miss S. Fleming, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine a Ms. R.S. Roberts.

**21. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 21.1 | **LLEOLIAD Y CAIS:** Llys Plastirion, Ffordd Russell, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Evans<br>K.R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0350<br><br>**DISGRIFIAD:** Gwaith ar goed yn gysylltiedig â Gorchymyn Cadw Coed 14/1951 cyfeirnod G24 cyn Gyngor Dosbarth Trefol y Rhyl |

| | |
|---|---|
| | **YMGEISYDD:** Mr Chesney Saxon, Sherratt Group, Pinfold Lane, Alltami, Sir y Fflint<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| 21.2 | **LLEOLIAD Y CAIS:** 43 Rhodfa Lynton, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Plastirion<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Evans<br>K.R. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1291<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad porth ar ochr yr annedd i storio sgwter symudedd a chreu mynediad gwastad<br><br>**YMGEISYDD:** Tracey Saunders<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| 21.3 | **LLEOLIAD Y CAIS:** Ellis Bar, 42 - 44 Stryd y Dŵr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1SS<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1299/1300<br><br>**DISGRIFIAD**: Addasiadau i fynedfa’r dafarn a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. Leigh Wright o’r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| 21.4 | **LLEOLIAD Y CAIS:** H.Samuel, 57 Stryd Fawr, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1TH<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1310<br><br>**DISGRIFIAD**: Arddangos arwydd ffasgia newydd wedi’i oleuo<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Mark White (Gee Tee Signs)<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |
| 21.5. | **AILYMGYNGHORIAD** |

| | |
|---|---|
| | **LLEOLIAD Y CAIS:** 157-159 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Pendyffryn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: A.J. Rutherford<br>D. Simmons<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/0091<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd y feithrinfa bresennol i ffurfio pump annedd<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Chris Walsh<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

## 22. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...